# HAWYS (HAWISE) GADARN (1291 - cyn 1353),

**Enw:** Hawys (Hawise) Gadarn
**Dyddiad geni:** 1291
**Dyddiad marw:** cyn 1353
**Priod:** John de Cherleton
**Plentyn:** Owen Cherleton
**Plentyn:** John Cherleton
**Rhiant:** Joanna de la Pole (née Corbet)
**Rhiant:** Owen de la Pole
**Rhyw:** Benyw
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

merch Owen de la Pole a Joanna Corbet ac yres Gruffydd ap Gwenwynwyn. Gan ei bod yn aeres ei hunig frawd, Gruffydd, a fu farw yn 1309, daeth yn ward y Goron, a rhoddwyd hi'n wraig i John Charlton ynghyd â barwniaeth Powys, yn yr un flwyddyn. Bu iddi ddau fab - John, ail arglwydd (Charlton) Powys, ac Owen, a fu farw yn ddietifedd. Y mae'n debyg mai yn nh y Brodyr Llwydion, Amwythig, y claddwyd hi.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, i, 49, 58-61, 259, 268

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hawys Gadarn

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20201367

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu